yello brick limited
127 Bute Street
Cardiff Bay
Cardiff CF10 5LE

tel: 02920 098 271
yello@yellobrick.co.uk
www.yellobrick.co.uk

Wednesday 5th December 2018

Hey Creatives!

Calling Writers, Dramaturges, Narrative Builders and Story Architects

yello brick are seeking new collaborators to work with on a range of upcoming projects and future endeavours.

We are looking for writers, dramaturges, story architects and world builders. Creatives excited by constructing detailed narrative worlds with us for a range of audiences to explore.

We are seeking professionals comfortable with the unknown - we're often working in ways and creating outputs for which there is no template. The nature of our work means we work best with those who are responsive, quick thinking and agile in their process.

We work best in a collaborative process where the end experience is a shared creative endeavour.

We are especially looking for writers and dramaturges who can work with us in creating more ambitious and detailed worlds and experiences for a range of different audiences.

Who are yello brick?

Our work is playful, curious, challenging and disruptive.

In a nutshell we make games and playful experiences in the real world often inspired by place and sometimes using technology to enhance the story we tell.

We love to place people at the centre of the story; often making them a participant rather than a spectator of our work. We create worlds in which a playful spirit helps you succeed and the more you play the more rewarding your experience.

Our projects can be anything from street games to digital storytelling apps, real world audio adventures to online immersive experience and everything in between.

We make bespoke interactive experiences for those who seek something more active and immersive than traditional screen and live entertainment.

You can see case studies of past projects on our website: http://yellobrick.co.uk/#case-studies-section

Who you are:

- A fun person
- Excited by the sound of this call out and have a keen interest in non traditional storytelling.
- Enjoy working collaboratively as part of a creative team
- You have the availability to take on a project(s) January - March 2019
- Free on Sunday 16th December for a game writing workshop in Cardiff.

We are particularly looking for creatives with experience writing for multi-platform narratives, immersive storytelling or games (street or video). Though this is not essential.

What to Expect:

It will be informal, playful and hopefully a bit of a laugh!

- Hello, tea, coffee and mince pie (wait for the person running late probably the traffic or parking. This could be us...)
- Let's play GAMES - We will show you ours if you show us yours.
- Creative Challenge - We will set out a project brief and then work-shop creative responses. At the end we will show you the project we did create for that brief.

Ultimately, we want a chance to get to know each other and to show you the way we work and to see how you work.

(Festive jumpers, hats and wrapping oneself in Christmas tinsel is encouraged.)

What We Can Offer

- **£20 payment towards time/expenses**
- **A fun creative workshop**
- **The possibility of future work with yello brick**

We appreciate that being freelance and giving up time for the possibility of work is not always easy. Thus we wish to offer £20 as payment to cover any expenses or towards your time.

How to Apply

Send us an email application to yello@yellobrick.co.uk answering the following:

- Tell us a little about you
- What excites you about this opportunity?
- What does immersive even mean?

Please keep applications to one side of A4. If you wish to submit via audio or video please keep this to a maximum length of 5 minutes.

Playtest Our Next Project...

After the workshop we will also be play testing a very early prototype of a new project between 16:00 - 18:00 and those invited to attend this workshop will also be able to be involved with this, if they wish, and get a greater sense of one of our upcoming projects.

Helo Greawdwyr!

Yn galw Ysgrifennwyr, Dramatwrgwyr, Adeiladwyr Naratifau a Phenseiri Straeon

Mae yello brick yn chwilio am gydweithredwyr newydd i weithio â hwy ar gyfres o brosiectau sydd ar y gweill ac ar ymdrechion yn y dyfodol.

Rydyn ni'n chwilio am ysgrifennwyr, dramatwrgwyr, penseiri straeon a chreawdwyr bydoedd. Creawdwyr sydd wedi'u cyffroi â'r syniad o bensaernio bydoedd naratif manwl gyda ni ar gyfer mwynhad ystod eang o gynulleidfaoedd.

Rydyn ni'n chwilio am bobl broffesiynol sy'n gyfforddus â'r anhysbys – yn aml rydyn ni'n gweithio mewn ffyrdd ac yn creu dyfeisiau nad oes templad iddynt eto. Mae natur ein gwaith yn golygu ein bod ni'n gweithio orau gyda'r rheiny sy'n ymatebol, yn meddwl yn gyflym ac yn chwim eu proses.
Rydyn ni'n gweithio orau o fewn proses gydweithrediadol ble y mae'r profiad terfynol yn ymdrech greadigol gyfrannol.

Rydyn ni'n benodol yn chwilio am ysgrifennwyr a dramatwrgwyr sy'n medru gweithio â ni i greu bydoedd a phrofiadau mwy uchelgeisiol a manwl ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd.

Pwy ydy yello brick?

Mae ein gwaith yn chwareus, yn chwilfrydig, yn heriol ac yn aflonyddol.

Yn gryno rydyn ni'n creu gemau a phrofiadau chwareus yn y byd go iawn sy'n aml wedi'u hysbrydoli gan leoliad ac weithiau'n defnyddio technoleg i ehangu'r stori yr ydym yn ei hadrodd.

Rydyn ni'n caru gosod pobl wrth wraidd y stori; yn aml trwy eu gwneud yn gyfranogwyr yn hytrach na'n wyliwyr o'n gwaith.

Rydyn ni'n creu bydoedd ble y mae ysbryd chwareus yn eich helpu i lwyddo a po fwyaf yr ydych chi'n chwarae y mwyaf gwerth chweil fydd eich profiad.

Gall ein prosiectau amrywio o gemau stryd i feddalwedd adrodd straeon digidol, anturiaethau clywedol byd go iawn i brofiad ar-lein ymdrochol a llawer mwy.

Rydyn ni'n creu profiadau rhyngweithiol unigryw i'r rheiny sy'n chwilio am rywbeth mwy gweithredol ac ymdrochol nag adloniant sgrin a byw traddodiadol.

Gallwch weld astudiaethau maes o'n prosiectau o'r gorffenol ar ein gwefan: http://yellobrick.co.uk/#case-studies-section

Pwy wyt ti:

- Person hwyliog
- Rhywun sydd wedi'u cyffroi gan gynnwys y galwad yma ac sydd â diddordeb taer mewn dulliau chwedleua newydd
- Rhywun sy'n mwynhau gweithio'n gydweithrediadol yn rhan o dim creadigol

- Rydych ar gael i ymgymryd â phrosiect(au) rhwng Ionawr – Mawrth 2019
- Rydych ar gael ar Ddydd Sul 16eg Rhagfyr ar gyfer gweithdy ysgrifennu gemau yng Nghaerdydd

Rydyn ni'n chwilio'n benodol am greawdwyr sydd â phrofiad o ysgrifennu naratifau aml-blatfform, chwedleua neu gemau ymdrochol (stryd neu fideo). Serch hynny nid yw hyn yn hanfodol.

Beth i'w ddisgwyl:

Fe fydd yn anffurfiol, yn chwareus ac yn damaid o hwyl gobeithio!

- Helo, tê, coffi a mins pei (aros am y rheiny sy'n hwyr oherwydd y traffig neu parcio mwy na thebyg. Efallai mai ni fydd y rheiny...)

- Beth am i ni chwarae GEMAU – Byddwn ni'n dangos ein rhai ni i chi os y dangoswch eich rhai chi i ni.

- Sialens greadigol – Byddwn yn gosod prosiect fer ac yna'n gweithio ar ymatebion creadigol. Ar y diwedd byddwn yn dangos y brosiect y crëon ni ar gyfer y briff hwnnw.

Yn y pendraw, rydyn ni eisiau'r cyfle i ddod i adnabod ein gilydd ac i ddangos i chi sut yr ydym ni'n gweithio ac i weld ym mha fodd yr ydych chi'n gweithio.

(Anogwn siwmperi Nadoligaidd, hetiau a lapio eich hunan mewn tinsel.)

Beth y Gallwn Ni Ei Gynnig

- Cyfraniad o £20 tuag at eich amser/treuliau
- Gweithdy creadigol hwyliog
- Y posibiliad o waith pellach gyda yello brick

Rydyn ni'n gwerthfawrogi nad yw gweithio'n llawrydd a rhoi o'ch hamser er mwyn posibiliad o waith bob tro'n hawdd. Felly dymunwn gynnig £20 o dâl i gyfrannu tuag at unrhyw dreuliau neu tuag at eich hamser.

Sut I Ymgeisio

Anfonwch ebost gais at yello@yellobrick.co.uk yn ateb y canlynol:

- Soniwch ychydig amdanoch chi eich hunan
- Beth sy'n eich cyffroi chi ynglyn â'r cyfle hwn?
- Beth yn union y mae ymdrochol yn ei olygu?

Cadwch unrhyw geisiadau i hyd o un ochr A4 os gwelwch chi'n dda. Os dymunwch wneud cais sain neu fideo yna cadwch unrhyw geisiadau i uchafswm o 5 munud o hyd.

Profwch Ein Prosiect Nesaf

Wedi'r gweithdy byddwn hefyd yn profi prototeip cynnar iawn o brosiect rhwng 16:00 – 18:00 a bydd y rheiny y'i gwahoddir i fynychu'r gweithdy hwn hefyd yn medru ymrwymo â hyn, petaen

nhw'n dymuno gwneud hynny, a chael dealltwriaeth ehangach o un o'r prosiectau sydd gennym ni ar y gweill.